## ATODLEN 2

Rheoliad 17

## Y WEITHDREFN AR GYFER APELIO YN ERBYN PENDERFYNIAD GAN Y CORFF PRIODOL

### Dehongli

**1.** Yn yr Atodlen hon —

ystyr "apelydd" ("*appellant*") yw person sy'n dwyn apêl yn unol â rheoliad 17 yn erbyn penderfyniad gan y corff priodol o dan reoliad 14;

ystyr "corff priodol" ("*appropriate body*") yw'r corff priodol a wnaeth y penderfyniad sy'n destun apêl;

ystyr "penderfyniad sy'n cael ei herio" ("*disputed decision*") yw'r mater y mae'r apelydd yn apelio at y Cyngor mewn perthynas ag ef; ac

ystyr "swyddog priodol" ("*proper officer*") yw'r person a benodir gan y Cyngor i gyflawni dyletswyddau swyddog priodol o dan yr Atodlen hon.

### Yr amser a'r dull ar gyfer apelio

**2.**—(1) Mae apêl i'w gwneud drwy anfon hysbysiad apêl at y swyddog priodol fel ei fod yn dod i law o fewn y cyfnod o 20 diwrnod gwaith sy'n dechrau ar y dyddiad y cafodd yr apelydd hysbysiad o dan reoliad 14(5)(a) o'r penderfyniad sy'n cael ei herio.

(2) Caiff y Cyngor ymestyn y terfyn amser a osodir gan is-baragraff (1), p'un a yw eisoes wedi dod i ben neu beidio, ond rhaid iddo beidio â gwneud hynny oni bai ei fod yn fodlon y byddai peidio ag ymestyn y terfyn amser yn arwain at anghyfiawnder sylweddol.

(3) Os yw'r apelydd o'r farn ei bod yn debygol y daw hysbysiad apêl i law y tu allan i'r terfyn amser a osodir gan is-baragraff (1) ceir cyflwyno gyda hysbysiad yr apêl ddatganiad o'r rhesymau y dibynnir arnynt i gyfiawnhau'r oedi a rhaid i'r Cyngor ystyried unrhyw ddatganiad o'r fath wrth benderfynu a ddylid ymestyn y terfyn amser neu beidio.

### Hysbysiad yr apêl

**3.**—(1) Rhaid i hysbysiad yr apêl ddatgan —

(a) enw a chyfeiriad yr apelydd;

(b) enw a chyfeiriad yr ysgol lle'r oedd yr apelydd yn cael ei gyflogi ar ddiwedd y cyfnod ymsefydlu;

(c) enw a chyfeiriad cyflogwr yr apelydd, os oes un, ar ddyddiad yr apêl;

(ch) seiliau'r apêl;

(d) enw, cyfeiriad a phroffesiwn y person (os oes un) sy'n cynrychioli'r apelydd, a ph'un a ddylai'r Cyngor anfon dogfennau sy'n ymwneud â'r apêl at y cynrychiolydd yn hytrach nag at yr apelydd; ac

(dd) a yw'r apelydd yn gofyn i'r apêl gael ei phenderfynu mewn gwrandawiad llafar.

(2) Rhaid i hysbysiad yr apêl gael ei lofnodi gan yr apelydd.

(3) Rhaid i'r apelydd gynnwys copi o'r canlynol fel atodiadau i'r hysbysiad —

(a) yr hysbysiad a roddwyd i'r apelydd gan y corff priodol o dan reoliad 14(5)(a) sy'n ymwneud â'r penderfyniad sy'n cael ei herio;

(b) unrhyw ddatganiad ysgrifenedig a roddwyd i'r apelydd gan y corff priodol yn rhoi rhesymau dros benderfyniad y corff priodol; ac

(c) pob dogfen arall y mae'r apelydd yn dibynnu arni at ddibenion yr apêl.

**Dogfennau ychwanegol, diwygio'r apêl a'i thynnu yn ôl**

**4.**—(1) Ar unrhyw adeg cyn cael hysbysiad o'r dyddiad a bennwyd ar gyfer y gwrandawiad o dan baragraff 13 neu hysbysiad o benderfyniad gan y Cyngor o dan baragraff 11, caiff yr apelydd —

(a) anfon copïau o unrhyw ddogfennau ychwanegol y mae'n dymuno dibynnu arnynt at ddibenion yr apêl at y swyddog priodol;

(b) diwygio neu dynnu'r apêl yn ôl, neu unrhyw ran ohoni; neu

(c) diwygio unrhyw ddeunydd a gyflwynwyd i ategu'r apêl neu ei dynnu yn ôl.

(2) Ar unrhyw adeg caiff yr apelydd gymryd unrhyw gam a grybwyllwyd yn is-baragraff (1) gyda chaniatâd y Cyngor.

(3) Pan fydd apelydd yn tynnu apêl yn ôl ni chaiff ddwyn apêl newydd mewn perthynas â'r penderfyniad sy'n cael ei herio.

(4) Caiff apêl gael ei diwygio neu ei thynnu yn ôl drwy anfon hysbysiad apêl diwygiedig neu hysbysiad yn datgan bod yr apêl yn cael ei thynnu yn ôl, yn ôl fel y digwydd, at y swyddog priodol.

**Cydnabod yr apêl a rhoi gwybod amdano**

**5.**—(1) O fewn deg diwrnod gwaith sy'n dechrau ar y dyddiad y cafodd y Cyngor hysbysiad yr apêl, rhaid i'r swyddog priodol —

(a) anfon cydnabyddiaeth at yr apelydd bod hysbysiad yr apêl wedi dod i law;

(b) anfon copi o hysbysiad yr apêl ac unrhyw ddogfennau sy'n cyd-fynd ag ef at y corff priodol;

(c) os oes person neu gorff heblaw'r corff priodol wedi'i enwi fel cyflogwr yr apelydd yn hysbysiad yr apêl, anfon copi o hysbysiad yr apêl at y person neu'r corff hwnnw; ac

(ch) anfon copi o hysbysiad yr apêl at bennaeth yr ysgol neu'r coleg AB lle'r oedd yr apelydd yn cael ei gyflogi pan gwblhawyd y cyfnod ymsefydlu.

(2) O fewn y cyfnod o ddeg diwrnod gwaith sy'n dechrau ar y dyddiad y cafodd y Cyngor oddi wrth yr apelydd unrhyw ddogfennau ychwanegol, seiliau diwygiedig dros apelio, dogfennau diwygiedig a gyflwynwyd i ategu'r apêl neu hysbysiad bod apêl yn cael ei thynnu'n ôl, rhaid i'r swyddog priodol anfon copi at y corff priodol.

**Cais am ragor o ddeunydd**

**6.**—(1) Os yw'r Cyngor o'r farn y gellid penderfynu ar yr apêl yn decach ac yn fwy effeithlon pe bai'r apelydd yn darparu rhagor o ddeunydd, caiff anfon hysbysiad at yr apelydd sy'n gwahodd yr apelydd i gyflenwi'r deunydd o fewn y cyfnod o ddeg diwrnod gwaith sy'n dechrau ar ddyddiad yr hysbysiad.

(2) Os yw'r Cyngor yn anfon hysbysiad o dan is-baragraff (1) rhaid i'r swyddog priodol ar yr un pryd hysbysu'r corff priodol ei fod wedi gwneud hynny.

(3) O fewn y cyfnod o ddeg diwrnod gwaith sy'n dechrau ar y dyddiad y cafodd y Cyngor ragor o ddeunydd o dan is-baragraff (1) rhaid i'r swyddog priodol anfon copi ohono at y corff priodol.

**Ateb gan y corff priodol**

**7.**—(1) Rhaid i'r corff priodol anfon ateb at y swyddog priodol sy'n bodloni gofynion paragraff 8 fel ei fod yn dod i law o fewn y cyfnod o 20 diwrnod gwaith sy'n dechrau ar y dyddiad y cafodd y corff priodol gopi o hysbysiad yr apêl.

(2) Caiff y Cyngor ymestyn y terfyn amser a osodir gan is-baragraff (1) p'un a yw eisoes wedi dod i ben neu beidio.

(3) Rhaid i'r Cyngor ganiatáu'r apêl os yw'r corff priodol yn datgan yn ei ateb, neu yn datgan yn ysgrifenedig ar unrhyw adeg, nad yw'n bwriadu cadarnhau'r penderfyniad sy'n cael ei herio, a rhaid i'r Cyngor wneud hynny o fewn y cyfnod o ddeg diwrnod gwaith sy'n dechrau ar y dyddiad y cafodd y Cyngor hysbysiad nad oedd y corff priodol yn bwriadu cadarnhau'r penderfyniad sy'n cael ei herio.

### Cynnwys yr ateb

**8.**—(1) Rhaid i'r ateb ddatgan —

(a) enw a chyfeiriad y corff priodol;

(b) a yw'r corff priodol yn bwriadu cadarnhau'r penderfyniad sy'n cael ei herio neu beidio; ac

(c) mewn achosion lle mae'r corff priodol yn bwriadu cadarnhau'r penderfyniad sy'n cael ei herio —

(i) ateb y corff priodol i bob un o'r seiliau dros yr apêl a roddwyd gan yr apelydd,

(ii) a yw'r corff priodol yn gwneud cais am wrandawiad llafar neu beidio, a

(iii) enw, cyfeiriad a phroffesiwn y person (os oes un) sy'n cynrychioli'r corff priodol, a ph'un a ddylai'r Cyngor anfon dogfennau sy'n ymwneud â'r apêl at y cynrychiolydd hwnnw yn hytrach nag at y corff priodol.

(2) Rhaid i'r corff priodol gynnwys y canlynol fel atodiadau i'r ateb —

(a) copi o unrhyw ddogfen y mae'n dymuno dibynnu arni at ddibenion gwrthwynebu'r apêl; a

(b) os nad yw'r apelydd wedi anfon at y swyddog priodol gopi o ddatganiad ysgrifenedig a roddwyd i'r apelydd gan y corff priodol yn rhoi rhesymau dros benderfyniad y corff priodol, ddatganiad sy'n rhoi rhesymau dros y penderfyniad.

### Dogfennau ychwanegol, diwygio'r ateb a'i dynnu yn ôl

**9.**—(1) Ar unrhyw adeg cyn iddo gael hysbysiad o'r dyddiad a bennwyd ar gyfer y gwrandawiad o dan baragraff 13 neu hysbysiad o benderfyniad y Cyngor o dan baragraff 11, caiff y corff priodol —

(a) anfon copïau o unrhyw ddogfennau ychwanegol y mae'n dymuno dibynnu arnynt at ddibenion gwrthwynebu'r apêl at y swyddog priodol;

(b) diwygio neu dynnu ei ateb yn ôl, neu unrhyw ran ohono;

(c) diwygio unrhyw ddeunydd a gyflwynwyd i ategu'r ateb neu ei dynnu yn ôl.

(2) Ar unrhyw adeg caiff y corff priodol gymryd unrhyw gam a grybwyllwyd yn is-baragraff (1) gyda chaniatâd y Cyngor.

(3) Caiff ateb gael ei ddiwygio neu ei dynnu yn ôl drwy anfon ateb diwygiedig neu hysbysiad yn datgan bod yr ateb yn cael ei dynnu yn ôl, yn ôl fel y digwydd, at y swyddog priodol.

### Cydnabod yr ateb a rhoi gwybod amdano

**10.**—(1) O fewn y cyfnod o ddeg diwrnod gwaith sy'n dechrau ar y dyddiad y cafodd y Cyngor yr ateb, rhaid i'r swyddog priodol —

(a) anfon cydnabyddiaeth at y corff priodol bod yr ateb wedi dod i law; a

(b) anfon copi o'r ateb ac unrhyw ddogfennau sy'n cyd-fynd ag ef at yr apelydd.

(2) O fewn y cyfnod o ddeg diwrnod gwaith sy'n dechrau ar y dyddiad y cafodd y Cyngor oddi wrth y corff priodol unrhyw ddogfennau ychwanegol, ateb diwygiedig, dogfennau diwygiedig a

gyflwynwyd i ategu ateb, neu hysbysiad bod ateb yn cael ei dynnu'n ôl, rhaid i'r swyddog priodol anfon copi at yr apelydd.

### Pŵer i benderfynu ar yr apêl heb wrandawiad

**11.**—(1) Os nad yw'r apelydd na'r corff priodol wedi gwneud cais am wrandawiad llafar ar ôl i'r cyfnod pryd y mae'n ofynnol i'r corff priodol anfon ei ateb ddod i ben, ac nad yw'r Cyngor o'r farn bod angen gwrandawiad llafar, caiff y Cyngor benderfynu ar yr apêl heb wrandawiad llafar.

(2) Os yw'r cyfnod pryd y mae'n ofynnol i'r corff priodol anfon ei ateb wedi dod i ben ac nad yw'r corff priodol wedi gwneud hynny, caiff y Cyngor ganiatáu'r apêl heb wrandawiad llafar.

(3) Os yw'r Cyngor yn penderfynu ar yr apêl heb wrandawiad llafar, rhaid iddo anfon hysbysiad o'i benderfyniad yn unol â'r gofynion ym mharagraff 17 fel bod yr hysbysiad yn dod i law'r apelydd a'r corff priodol o fewn y cyfnod o 20 diwrnod gwaith sy'n dechrau ar y diwrnod sy'n dilyn y diwrnod y daeth y terfyn amser ar gyfer anfon ateb i ben.

### Gwrandawiad apêl

**12.** Mae paragraffau 13 i 16 yn gymwys os yw'r apêl i gael ei phenderfynu ar sail gwrandawiad llafar.

### Pennu dyddiad ar gyfer y gwrandawiad

**13.**—(1) Rhaid i'r Cyngor bennu dyddiad ar gyfer y cyfarfod —

(a) o fewn y cyfnod o 20 diwrnod gwaith sy'n dechrau ar y diwrnod yn dilyn y dyddiad y daeth yr amser ar gyfer anfon ateb i ben; a

(b) nid cyn y diwrnod yn dilyn y dyddiad y daeth y cyfnod ar gyfer anfon ateb i ben.

(2) Ar yr un diwrnod ag y bydd y Cyngor yn pennu dyddiad ar gyfer y gwrandawiad, rhaid i'r swyddog priodol anfon at yr apelydd a'r corff priodol hysbysiad —

(a) yn eu hysbysu am amser a lleoliad gwrandawiad yr apêl;

(b) yn rhoi canllawiau ynghylch y weithdrefn a fydd yn gymwys i'r gwrandawiad;

(c) yn eu hysbysu am ganlyniadau peidio â bod yn bresennol yn y gwrandawiad; ac

(ch) yn eu hysbysu am eu hawl i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig os na fyddant yn bresennol yn y gwrandawiad.

(3) Rhaid i'r dyddiad a bennir ar gyfer y gwrandawiad beidio â bod yn llai na 15 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr hysbysiad.

### Y camau sydd i'w dilyn gan yr apelydd a'r corff priodol ar ôl i'r hysbysiad am y gwrandawiad ddod i law

**14.**—(1) Heb fod yn llai na deg diwrnod gwaith cyn y dyddiad a bennwyd ar gyfer y gwrandawiad mae'r apelydd a'r corff priodol —

(a) yn gorfod hysbysu'r swyddog priodol a ydynt yn bwriadu ymddangos neu gael eu cynrychioli yn y gwrandawiad neu beidio;

(b) yn gorfod hysbysu'r swyddog priodol pa dystion, os oes rhai, y maent yn bwriadu eu galw yn y gwrandawiad;

(c) os nad ydynt yn bwriadu ymddangos neu gael eu cynrychioli yn y gwrandawiad, yn cael anfon at y swyddog priodol unrhyw sylwadau ysgrifenedig i ategu'r deunydd sydd eisoes wedi'i anfon at y swyddog priodol.

(2) O fewn y cyfnod o dri diwrnod gwaith sy'n dechrau ar y dyddiad y daw sylwadau i law, rhaid i'r swyddog priodol anfon at y naill barti a'r llall gopi o unrhyw sylwadau a ddaeth i law'r swyddog priodol oddi wrth y parti arall o dan y paragraff hwn.

### Newid lleoliad neu amser y gwrandawiad

**15.**—(1) Caiff y Cyngor newid lleoliad neu amser y gwrandawiad o dan unrhyw amgylchiadau sydd ym marn y Cyngor yn briodol, ar yr amod nad yw'r dyddiad newydd ar gyfer y gwrandawiad yn gynharach na'r dyddiad gwreiddiol.

(2) Os yw'r Cyngor yn newid lleoliad neu amser y gwrandawiad, rhaid i'r swyddog priodol anfon hysbysiad at yr apelydd a'r corff priodol yn eu hysbysu o'r newid a hynny yn ddi-oed a beth bynnag o fewn tri diwrnod gwaith sy'n dechrau ar y dyddiad y cafodd y newid ei wneud.

### Y weithdrefn yn y gwrandawiad

**16.**—(1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau canlynol y paragraff hwn, rhaid i'r Cyngor benderfynu ar y weithdrefn yn ystod gwrandawiad yr apêl.

(2) Rhaid i wrandawiad yr apêl gael ei gynnal yn gyhoeddus oni bai bod y Cyngor yn penderfynu ei bod yn deg ac yn rhesymol i'r gwrandawiad neu unrhyw ran ohono gael ei gynnal yn breifat.

(3) Caiff yr apelydd a'r corff priodol ymddangos yn y gwrandawiad a gallant gael eu cynrychioli neu eu cynorthwyo gan unrhyw berson.

(4) Os yw'r apelydd neu'r corff priodol yn methu â bod yn bresennol yn y gwrandawiad, caiff y Cyngor wrando'r apêl yn absenoldeb y parti hwnnw a phenderfynu arni, ar yr amod bod y Cyngor wedi ystyried unrhyw sylwadau a wnaed gan y parti o dan sylw o dan baragraff 14.

(5) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (6), caiff yr apelydd a'r corff priodol roi tystiolaeth, galw tystion, holi unrhyw dystion ac annerch y Cyngor ar y dystiolaeth ac yn gyffredinol ar destun yr apêl.

(6) Ar unrhyw adeg yn ystod y gwrandawiad, caiff y Cyngor gyfyngu ar hawliau'r naill barti neu'r llall o dan is-baragraff (5) ar yr amod bod y Cyngor wedi'i fodloni na fydd gwneud hynny yn atal yr apêl rhag cael ei phenderfynu'n deg.

(7) Caiff y Cyngor ohirio'r gwrandawiad, ond rhaid iddo beidio â gwneud hynny oni bai ei fod wedi'i fodloni bod angen gwneud hynny er mwyn i'r apêl gael ei phenderfynu'n deg.

(8) Rhaid i amser a lleoliad gwrandawiad sydd wedi'i ohirio naill ai cael eu cyhoeddi cyn y gohiriad neu rhaid i'r Cyngor anfon hysbysiad at yr apelydd a'r corff priodol yn eu hysbysu am amser a lleoliad y gwrandawiad gohiriedig yn ddi-oed, a beth bynnag o fewn tri diwrnod gwaith sy'n dechrau ar ddyddiad y gohiriad.

### Penderfyniad y Cyngor

**17.**—(1) Caiff penderfyniad y Cyngor gael ei wneud a'i gyhoeddi ar ddiwedd y gwrandawiad, ond beth bynnag fo'r achos, p'un a fu gwrandawiad neu beidio, rhaid i'r penderfyniad gael ei gofnodi yn union wedi iddo gael ei wneud a hynny mewn dogfen y mae'n rhaid iddi gynnwys hefyd ddatganiad o'r rhesymau dros y penderfyniad ac y mae'n rhaid ei llofnodi a'i dyddio gan berson a awdurdodir gan y Cyngor.

(2) O fewn y cyfnod o bum diwrnod gwaith sy'n dechrau ar y dyddiad y gwnaed y penderfyniad, rhaid i'r Cyngor —

(a) anfon copi o'r ddogfen y cyfeirir ati yn is-baragraff (1) at yr apelydd, y corff priodol a phennaeth yr ysgol neu'r coleg AB lle'r oedd yr apelydd yn cael ei gyflogi pan gafodd y cyfnod ymsefydlu ei gwblhau; a

(b) os oes person neu gorff heblaw'r corff priodol wedi'i enwi fel cyflogwr yr apelydd yn yr hysbysiad apêl, hysbysu'r corff neu'r person hwnnw o'i benderfyniad.

### Afreoleidd-dra

**18.**—(1) Ni fydd unrhyw afreoleidd-dra sy'n deillio o fethiant i gydymffurfio ag unrhyw un o ddarpariaethau'r Atodlen hon cyn i'r Cyngor gyrraedd ei benderfyniad ynddo'i hun yn dirymu'r achos.

(2) Os daw unrhyw afreoleidd-dra o'r fath i sylw'r Cyngor, fe gaiff y Cyngor roi unrhyw gyfarwyddiadau sydd ym marn y Cyngor yn gyfiawn, cyn dod i'w benderfyniad, i unioni neu anwybyddu'r afreoleidd-dra, a rhaid iddo wneud hynny os yw o'r farn bod y naill barti neu'r llall wedi'u rhagfarnu gan yr afreoleidd-dra.

### Dogfennau

**19.**—(1) Caiff unrhyw beth y mae'n ofynnol ei anfon at berson at ddibenion apêl o dan yr Atodlen hon —

(a) cael ei drosglwyddo i'r person hwnnw yn bersonol; neu

(b) cael ei anfon at y person hwnnw yn ei gyfeiriad priodol drwy'r post; neu

(c) cael ei anfon ato drwy ffacsimili neu bost electronig neu ddulliau cyffelyb eraill sy'n gallu cynhyrchu dogfen sy'n cynnwys testun y cyfathrebiad, ac os felly bernir bod y ddogfen wedi'i hanfon pan fydd wedi dod i law mewn ffurf ddarllenadwy.

(2) Cyfeiriad priodol person yw'r cyfeiriad sydd wedi'i ddatgan yn hysbysiad yr apêl neu'r ateb, neu unrhyw gyfeiriad arall a gaiff ei hysbysu wedi hynny i'r swyddog priodol.